**Cyfarfod Bwrdd Cynghori Taith – Cofnodion**
**Dydd Iau, 9 Chwefror 2023**
**10.30am – 12.30pm**
**Cyfarfod wedi'i gynnal ar Teams**

| **Rhestr Bresenoldeb** | |
|---|---|
| **Yn Bresennol:** | (**KW**) Kirsty Williams, Cadeirydd y Bwrdd Cynghori<br>(**AW**) Amanda Wilkinson, Prifysgolion Cymru<br>(**MH**) Maria Hinfelaar, Prifysgol Glyndŵr Wrecsam<br>(**CM**) Craig Matthews, Grŵp Prif Swyddogion Ieuenctid yr Awdurdodau Lleol<br>(**SH**) Siân Holleran, ColegauCymru<br>(**DL**) Delyth Lewis, Senedd Ieuenctid Cymru<br>(**GM**) Gareth Morgans, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru/Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru<br>(**HJ**) Helen Jones, Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol<br>(**RH**) Rob Humphreys, Sefydliad Dysgu a Gwaith<br>(**ZE**) Zachary Edge, UCM Cymru<br>(**BC**) Ben Calvert, Partneriaeth Cymru Fyd-eang |
| **Dirprwyon:** | (**APE**) Angharad Penny Evans, Llywodraeth Cymru<br>(**BO**) Bethan Owen, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru |
| **Ymddiheuriadau:** | John Nash, Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru<br>Calum White, Llywodraeth Cymru<br>Colin McInnes, Addysg Uwch Cymru Brwsel<br>Harriet Barnes, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru |
| **Swyddogion Gweithredu Taith:** | (**SG**) Susana Galván<br>(**EM**) Dr Elid Morris<br>(**EB**) Ellie Bevan<br>(**WB**) Walter Brooks<br>(**HG**) Helen Gentle<br>(**CR**) Claire Richardson<br>(**SJ**) Sion James<br>(**BW**) Bethan Williams |
| **Cymorth Ysgrifenyddol:** | Michele Convery |

| Cofnodion | | |
|---|---|---|
| **Eitem ar yr agenda** | **Eitem** | **Gweithredu (G) – Trafod (T)** |
| **1** | **Croeso a chyflwyniadau** | |
| 1.1<br><br><br><br><br>1.2<br><br><br>1.3<br><br><br><br>1.4<br><br><br><br>1.5 | Croesawyd yr aelodau i'r cyfarfod. Croesawyd Zachary Edge yn arbennig, sy'n cynrychioli UCM Cymru ac sydd wedi cymryd lle Joe Atkinson ar y Bwrdd Cynghori. Diolchwyd i Joe am gyfrannu at y Bwrdd Cynghori. Yn ogystal, croesawyd Angharad Penny Evans, a oedd yn bresennol ar ran Calum White o Lywodraeth Cymru, a Bethan Owen, a oedd yn bresennol ar ran Harriet Barnes o Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.<br><br>Rhoddwyd gwybod i'r aelodau bod y cyfarfod yn cael ei recordio er mwyn hwyluso'r gwaith o gymryd cofnodion, a gofynnwyd iddynt gadw'r adnodd sgwrsio ar gyfer materion gweithredol yn unig.<br><br>Rhoddwyd gwybod i'r aelodau bod cyfeiriad ebost pwrpasol ar gael bellach ar gyfer cysylltu â'r Cadeirydd i godi unrhyw faterion yn uniongyrchol neu gynnwys eitem ar yr agenda. Y cyfeiriad ebost yw TaithABChair@taith.wales.<br><br>Byddai fformat y cyfarfod ychydig yn wahanol i fformat cyfarfodydd blaenorol. Byddai hanner cyntaf y cyfarfod yn rhoi sylw i'r papurau a'r adroddiadau a ddisgwylir fel arfer gan Swyddogion Gweithredu Taith. Yn ystod ail hanner y cyfarfod, byddai gweithdy/trafodaethau mwy manwl mewn grwpiau llai.<br><br>Nodwyd bod Taith yn dathlu ei phen-blwydd cyntaf ym mis Chwefror 2023 a bod y cyfarfod yn gyfle da nid yn unig i ddathlu'r rhaglen, ond hefyd i ystyried y daith hyd yma, y gwersi a ddysgwyd, a rôl y Bwrdd Cynghori yn y dyfodol. | |
| **2** | **Cofnodion y cyfarfod diwethaf a'r camau gweithredu** | |
| 2.1 | Cyfeiriwyd at y cyfarfod eithriadol a gynhaliwyd ar 10 Ionawr 2023 a'r consensws ynghylch yr amser cyfyng sy'n cael ei roi i'r aelodau gael papurau a gallu ymgynghori â chydweithwyr yn y sectorau. Wrth symud ymlaen, nod Swyddogion Gweithredu Taith yw argymell addasiadau i'r polisi ar gyfer rowndiau nesaf Llwybr 2 (galwad i'w lansio yn ystod hydref 2023) a Llwybr 1 (galwad i'w lansio ym mis Ionawr 2024) yn ystod cyfarfod nesaf y Bwrdd Cynghori, a fydd yn cael ei gynnal ym mis Mehefin. | **G – Swyddogion Gweithredu Taith i argymell addasiadau i'r polisi ar gyfer Llwybr 2 2023 a Llwybr 1 2024 yn ystod** |

| | | |
|---|---|---|
| | | **cyfarfod nesaf y Bwrdd Cynghori ym mis Mehefin** |
| **3** | **Materion yn codi** | |
| 3.1 | Ni wnaeth yr aelodau unrhyw sylwadau ar y cofnodion a’r camau gweithredu blaenorol. | |
| **4** | **Diweddariad gan Swyddogion Gweithredu Taith** | |
| 4.1 | Cafwyd diweddariad cryno gan Swyddogion Gweithredu Taith, am fod y papur manwl wedi’i rannu cyn y cyfarfod. Yn rhan o’r crynodeb, dywedwyd y canlynol wrth yr aelodau: | |
| 4.1a | Mae canlyniadau Llwybr 1 2022 wedi’u cyhoeddi ar y wefan. | |
| 4.1b | Mae ceisiadau am gyllid Llwybr 2 2022 yn cael eu hystyried gan y Pwyllgor Ariannu ar hyn o bryd. Byddant yn cael eu cymeradwyo’n derfynol gan Fwrdd Cyfarwyddwyr ILEP. Bydd Bwrdd y Cyfarwyddwyr yn cyfarfod ar 20 Chwefror, a’r gobaith yw y bydd y Buddiolwyr yn cael eu hysbysu o’r canlyniadau o 28 | |
| 4.1c | Chwefror ymlaen.<br>Lansiwyd yr alwad i ymgeisio am gyllid Llwybr 1 2023 ar 19 Ionawr, ac mae’r dyddiad cau ar gyfer | |
| 4.1d | cyflwyno cais ym mis Mawrth.<br>Eleni, bydd llawer mwy o bwyslais ar straeon a chanlyniadau’r Buddiolwyr, a bydd y wefan yn adlewyrchu | |
| 4.1e | hyn.<br>Gofynnwyd i’r Bwrdd Cynghori rannu unrhyw ddarnau myfyriol (dolen yn y papur a rannwyd) y gellir rhoi | |
| 4.1f | sylw iddynt ar y wefan a’r cyfryngau cymdeithasol i ddathlu pen-blwydd cyntaf Taith.<br>Mae Swyddogion Gweithredu Taith wedi bod wrthi’n ymgysylltu â’r sectorau cymwys, ac maent wedi cynnal llawer o ddigwyddiadau i godi ymwybyddiaeth o Taith, gwella dealltwriaeth y sectorau o sut mae | |
| 4.1g | Taith yn gweithio, ac annog sefydliadau i ymgeisio am gyllid.<br>Mae rhanddeiliaid o’r tu allan i Gymru wedi dangos cryn ddiddordeb yn Taith, ac mae SG wedi cael gwahoddiadau i sawl digwyddiad i sôn am Taith a’i hyrwyddo. | |
| 4.1h | Cyn gwyliau’r Nadolig, llofnodwyd llythyr Cytundeb Grant pob un a gyflwynodd gais llwyddiannus am gyllid Llwybr 1 2022. Cyfanswm gwerth y grantiau a ddyfarnwyd oedd ychydig dros £10 miliwn.<br>Llofnodwyd llythyr Cytundeb Grant Cymru Fyd-eang hefyd cyn Nadolig 2022, a gwerth y grant o £10.28 miliwn. | |
| 4.1i | Mae adran newydd i’r Buddiolwyr wedi’i lansio ar y wefan, ac mae gwybodaeth wedi’i hanfon at yr holl Fuddiolwyr presennol am sut i’w llywio. Yn ogystal, bydd sesiynau cymorth hefyd yn cael eu cynnig. | |

| | | |
|---|---|---|
| 4.2 | Gofynnwyd i'r aelodau a oedd ganddynt unrhyw gwestiynau ynghylch y diweddariad. | |
| | **Cwestiwn** | |
| 4.2a | Diolchwyd i'r tîm am ei holl waith caled, a gofynnwyd a oedd yn bosibl i aelodau'r Bwrdd Cynghori gael syniad cyffredinol o'r holl ymgeiswyr a oedd yn llwyddiannus ac yn aflwyddiannus, am fod angen gwybod pwy mae'r neges yn ei gyrraedd. Mae angen bod mor dryloyw â phosibl. | |
| 4.2a(i) | Nodwyd y gall rhannu data fod yn rhwystr, ond bod angen deall a chynorthwyo. Awgrymwyd y gall ymarfer ticio blychau fod o gymorth i oresgyn y rhwystr hwn. | **G – Swyddogion Gweithredu Taith i adolygu pa wybodaeth y gellir ei rhannu** |
| | **Ymateb Swyddogion Gweithredu Taith i 4.2a a 4.2a(i)** | |
| 4.2a(ii) | Bydd Swyddogion Gweithredu Taith yn edrych i weld pa wybodaeth y gellir ei rhannu. O ran codi ymwybyddiaeth o Taith, mae gwaith dadansoddi a thrafodaethau'n parhau gyda'r Cyrff Trefnu Sectorau. | |
| 4.2a(iii) | Ychwanegwyd bod y pwyntiau hyn yn berthnasol a bod angen gweld a deall y data hwn, am fod cymaint o amrywiaeth yn y sectorau sy'n gwneud pethau'n gymhleth. | |
| | **Cwestiwn** | |
| 4.2b | Gofynnwyd ym mha ffordd y bydd Taith yn nodi sut mae prosiectau wedi gwella rhagolygon gyrfaol pobl, ac ym mha ffordd y bydd yn sicrhau ymagwedd strwythuredig at ddeall yr effaith y tu hwnt i gymryd rhan. | |
| | **Ymateb Swyddogion Gweithredu Taith** | |
| 4.2b(i) | Cydnabuwyd pwysigrwydd y cwestiwn, ac esboniwyd bod Swyddogion Gweithredu Taith yn ymwybodol iawn o'r angen i gasglu'r data hwn. | |
| 4.2b(ii) | Ar hyn o bryd, mae manyleb (neu fethodoleg ymchwil) yn cael ei pharatoi i'w gwneud yn bosibl casglu adborth gan y rhai sydd wedi/wrthi'n cymryd rhan. | |
| 4.2b(iii) | Bydd gwaith gwerthuso annibynnol yn cael ei wneud i gael gwybod am yr effaith ar y Buddiolwyr, a fydd hefyd yn cynnwys Cymru Fyd-eang. | |
| 4.2b(iv) | Mae offeryn adrodd misol wedi'i lansio sy'n gofyn i'r holl Fuddiolwyr presennol adrodd ar eu targedau. Mae arwydd o wariant a digonedd o is-setiau data cymryd rhan ar gael, hefyd. Bydd hyn yn galluogi Taith i fod yn ddata-gyfoethog, ac o ran effeithiau byrdymor a hirdymor, bydd dulliau o ddefnyddio a strwythuro'r data hwn yn cael eu harchwilio. | |
| 4.2c | Gofynnwyd cwestiwn ynghylch adrodd a'r hyn sy'n cael ei adrodd. Beth mae'r wybodaeth fisol yn ei chynnig, a pham mae'n cael ei rhoi'n fisol? Beth sy'n cael ei gyflawni â'r arian a roddwyd i'r Buddiolwyr? | |

| | | |
|---|---|---|
| | **Ymateb Swyddogion Gweithredu Taith** | |
| 4.2c(i) | Mae'r offeryn adrodd misol yn rhoi niferoedd ar gyfer gweithgareddau symudedd sydd eisoes wedi mynd rhagddynt. | |
| 4.2c(ii) | O ran gwariant, dyma'r arian y mae'r Buddiolwr eisoes wedi'i wario. | |
| 4.2c(iii) | Pwysleisiwyd pa mor bwysig yw'r offeryn misol i gael gwybod sut mae'r rhaglen yn dod yn ei blaen, gan nad yw Swyddogion Gweithredu Taith yn cael unrhyw wybodaeth amser real arall gan y Buddiolwyr. | |
| 4.2c(iv) | Mae angen i'r Buddiolwyr lenwi taenlen. Nid oes angen unrhyw wybodaeth naratif. | |
| 4.2c(v) | Er mwyn sicrhau'r aelodau, rhoddwyd gwybod bod yr adroddiad misol yn hanfodol bwysig. | |
| 4.2c(vi)<br>4.2c(vii) | Mae'r ail ran o'r adroddiad yn rhoi sgôr risg i'r Buddiolwr, sy'n rhoi gwybod a oes angen adroddiad chwarterol neu dros dro. | |
| 4.2c(viii) | Yn rhan o bob prosiect, mae angen adroddiad terfynol. Mae hyn yn ysgogi cyfres o daliadau. Nid yw hyn yn rhy annhebyg i ofynion adrodd rhaglenni cyfnewid rhyngwladol eraill. | |
| 4.2d | Cydnabu Swyddogion Gweithredu Taith y gall gweithdrefnau gweinyddol fod yn or-gymhleth (a bod y Buddiolwyr wedi sôn am hyn), ond bod angen bodloni gofynion adrodd sylfaenol Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae unrhyw adborth y gall yr aelodau ei roi bob amser yn ddefnyddiol iawn, gan y bydd prosesau'n cael eu symleiddio bob cyfle posibl. | **G – Swyddogion Gweithredu Taith i baratoi dadansoddiad o'r canlyniadau a'i rannu gyda'r aelodau** |
| 4.2e | Roedd yr aelodau'n awyddus i wybod rhagor am broffil y symudedd sy'n digwydd, h.y. pa wledydd sydd dan sylw, ac a yw'r rhain yn Ewrop yn bennaf neu yn yr Unol Daleithiau, hefyd. Byddai mwy o syniad o faint y symudedd yn cael ei werthfawrogi. | |
| 4.2e(i) | Cadarnhaodd Swyddogion Gweithredu Taith fod y wybodaeth hon ar gael ac y bydd dadansoddiad o'r canlyniadau'n cael ei baratoi a'i rannu gyda'r aelodau. Bydd hefyd yn cynnwys gwybodaeth am y gwledydd. | **G – Aelodau'r Bwrdd Cynghori i roi gwybod beth yr hoffent ei weld yn yr offeryn adrodd** |
| 4.2f | Mynegwyd pryder ynghylch y gwaith y mae angen i'r Buddiolwyr (sy'n cynnwys sefydliadau bach) ei wneud i adrodd yn fisol, ond nodwyd bod Swyddogion Gweithredu Taith wedi tawelu meddyliau'r aelodau drwy esbonio nad oes angen i'r Buddiolwyr wneud gormod. | |
| 4.2g | I gloi ar yr eitem hon, nodwyd bod angen rhagor o wybodaeth am y ceisiadau a'r Buddiolwyr, a gofynnwyd i'r aelodau awgrymu neu roi gwybod beth yr hoffent ei weld yn yr offeryn adrodd. | |
| **5** | **Diweddariad ar y Cyrff Trefnu Sectorau** | |

| | | |
|---|---|---|
| 5.1 | Cafwyd diweddariad cryno ar yr argymhellion yn adroddiad Arad Research ar y Cyrff Trefnu Sectorau, am fod y papur manwl wedi'i rannu cyn y cyfarfod. Yn rhan o'r crynodeb, dywedwyd y canlynol wrth yr aelodau: | |
| 5.1a | Mae'r Cyrff Trefnu Sectorau wedi bodloni eu nod gwreiddiol, a'r argymhelliad yw bod y model yn parhau i gael ei ddefnyddio. | |
| 5.1b | Mae angen ystyried cynnwys y sectorau Addysg Bellach ac Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol yn rhan o rownd nesaf o waith y Cyrff Trefnu Sectorau. | |
| 5.1c | Mae angen bod yn dryloyw, a dylai Swyddogion Gweithredu Taith, Bwrdd Cyfarwyddwyr ILEP a'r Cyrff Trefnu Sectorau geisio sicrhau hyn, yn enwedig am fod y Cyrff Trefnu Sectorau hefyd yn gymwys i gael cyllid gan Taith ac y gallai hyn gael ei ystyried yn fantais a rhoi sefydliadau eraill dan anfantais. | |
| 5.1d | Mae angen datblygu cysylltiadau gwell ag Awdurdodau Lleol. | |
| 5.1e | Mae angen datblygu dull o fonitro a gwerthuso canlyniadau ac effaith. | |
| 5.1f | Mae angen nodi bylchau ymgysylltu. | |
| 5.1g | Mae angen adolygu model y Cyrff Trefnu Sectorau i sicrhau tryloywder a chysondeb wrth wneud penderfyniadau gyda phartneriaid. | |
| 5.1h | Mae angen i'r Cyrff Trefnu Sectorau fod â fforwm i rannu arfer gorau ymysg ei gilydd. | |
| 5.2 | Ychwanegodd Swyddogion Gweithredu Taith fod y Cyrff Trefnu Sectorau wedi bod yn llwyddiannus yn ystod y cyfnod treialu cychwynnol ym mlwyddyn gyntaf Taith, ac yn ôl yr adroddiad, roedd yr egwyddorion yn rhai da a ddylai barhau. | |
| 5.2a | Fodd bynnag, cydnabuwyd bod angen i Swyddogion Gweithredu Taith ystyried sut mae'r cyd-destun wedi newid ers y flwyddyn gyntaf, am fod mwy o gapasiti yn y tîm a mwy o ymwybyddiaeth o Taith. | |
| 5.2b | Mae angen ystyried faint o gymorth sydd ei angen ar y gwahanol sectorau a sefydliadau i ymgysylltu â Taith a gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd sydd ar gael. | **G – Swyddogion Gweithredu Taith i drefnu gweithdy i'r aelodau ym mis Mawrth er mwyn trafod model y Cyrff Trefnu Sectorau yn y dyfodol, a fydd yn cael ei ddilyn gan alwad agored ym mis Mai/Mehefin** |
| 5.2b(i) | Bydd gweithdy'n cael ei gynnal yn gynnar ym mis Mawrth, lle bydd yr aelodau'n cael eu gwahodd i gyfrannu at ddatblygiad model y Cyrff Trefnu Sectorau yn y dyfodol. | |
| 5.2b(ii) | Bydd Swyddogion Gweithredu Taith hefyd yn ymgysylltu â rhanddeiliaid eraill y tu hwnt i'r Bwrdd Cynghori, a hynny i nodi'r heriau a'r rhwystrau penodol i waith y Cyrff Trefnu Sectorau. | |
| 5.2b(iii) | Bydd Swyddogion Gweithredu Taith yn cynnig meini prawf ar gyfer y grŵp nesaf o Gyrff Trefnu Sectorau a'r meysydd y dylent ganolbwyntio arnynt, a hynny ar sail mewnbwn yr aelodau a gwaith ymgynghori â'r sectorau. | |

| | | |
|---|---|---|
| 5.2c | Bydd yr alwad i ymgeisio i ddod yn Gorff Trefnu Sector yn cael ei lansio ym mis Mai 2023, a nod Swyddogion Gweithredu Taith yw rhoi diweddariad i'r aelodau yn ystod y cyfarfod nesaf ar 21 Mehefin. | **G – Swyddogion Gweithredu Taith i roi diweddariad i'r aelodau ar yr alwad i ymgeisio i ddod yn Gorff Trefnu Sector yn ystod y cyfarfod ym mis Mehefin** |
| 5.2d | Atgoffwyd yr aelodau y bydd y gweithdy ym mis Mawrth yn rhoi cyfle i ystyried y fersiwn nesaf o'r model yn fwy manwl drwy ddefnyddio'r profiad o'r cyfarfod hwn a'r adroddiad a rannwyd cyn y cyfarfod hwn. Ar ôl hynny, gwahoddwyd unrhyw gwestiynau. | |
| 5.2e | Gofynnwyd a fyddai'r grŵp nesaf o Gyrff Trefnu Sectorau'n cael eu cynnwys yn y drefn o'r flwyddyn academaidd nesaf, neu mewn pryd ar gyfer yr alwad nesaf i ymgeisio am gyllid Llwybr 1. | |
| 5.2e(i) | Yn ôl Swyddogion Gweithredu Taith, y nod yw eu bod wedi'u cynnwys yn y drefn i gynorthwyo â rownd nesaf Llwybr 2 rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr. | |
| 5.2f | I gloi ar yr eitem hon, cafodd ei hailadrodd mai arfer da yw cadw'r Cyrff Trefnu Sectorau dan arolwg ac y dylid sicrhau eu bod yn gwneud gwaith sy'n adlewyrchu esblygiad a thwf Taith. | |
| **6** | **Y Bwrdd Cynghori, a llywodraethu Taith: Gweithdy/Trafodaeth** | |
| 6.1 | Rhoddwyd y cwestiynau canlynol i'r aelodau i'w trafod mewn tair ystafell drafod: | |
| 6.1a | **Strategaeth Taith** flwyddyn yn ddiweddarach – a yw'n iawn fel y mae, neu a oes angen ei diweddaru? | |
| 6.1b | **Rôl ac effeithiolrwydd y Bwrdd** – beth sy'n gweithio, a beth sydd angen ei newid? | |
| 6.1c | **Aelodaeth y Bwrdd** – a yw'n iawn, a oes gwrthdaro, pam rydych yma ac ar ran pwy? | |
| | **Adborth cyfunol gan y tri grŵp:** | |
| 6.1a(i) | Mae Taith yn rhaglen wych, ac yn gyffredinol, roedd y grŵp yn fodlon ar y strategaeth. | |
| 6.1a(ii) | Mae'n rhy gynnar i wneud newidiadau i'r strategaeth. Dylid gadael i'r rhaglen fynd rhagddi am fwy o amser cyn gwneud asesiad. | |
| 6.1a(iii) | Mae pryderon ynghylch sut i fesur strategaethau. Mae rhai o nodau ac amcanion y rhaglen yn anos i'w cipio nag eraill. | |
| 6.1a(iv) | Mae pryderon efallai na fydd gan rai o'r sefydliadau'r capasiti i fesur llwyddiant rhaglen. | |
| 6.1a(v) | A ddylai Taith ddatblygu offeryn gwerthuso? | |
| 6.1a(vi) | Efallai na fydd pobl yn sylweddoli beth yw gwerth profiad tan yn llawer hwyrach, ac efallai na fydd gwerth profiad yn cael ei gipio mewn astudiaethau. | |
| 6.1a(vii) | A ddylai Taith ddatblygu offeryn methodoleg? | |

| | | |
|---|---|---|
| 6.1a(viii)<br><br>6.1a(ix)<br>6.1a(x)<br><br>6.1a(xi)<br>6.1a(xii)<br>6.1a(xiii)<br>6.1a(xiv)<br>6.1a(xv)<br><br><br>6.1b(i)<br>6.1b(ii)<br>6.1b(iii)<br>6.1b(iv)<br><br>6.1b(v)<br><br>6.1b(vi)<br><br>6.1b(vii)<br><br><br>6.1c(i)<br><br>6.1c(ii)<br><br>6.1c(iii)<br><br>6.1c(iv) | Mae'n bwysig bod strategaeth i'w chael sy'n ystyried sut mae Taith yn parhau i fodoli, gan gynnwys sicrhau ei bod yn aros yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru ac yn rhan o faniffesto'r llywodraeth.<br>Gallai proffil Taith fod yn uwch.<br>Mae cwestiynau ynghylch maint y baich rheoleiddiol ar sefydliadau ac y gall hyn beri i sefydliadau beidio â chyflwyno cais.<br>Mae risg y bydd diwylliant gwrth risg yn datblygu'n fewnol, a all arwain at lai o alw.<br>Gellir seilio strategaeth Taith ar y cryfder sydd i'w gael yn barod mewn gwahanol sectorau.<br>Dylai'r strategaeth roi sylw i effaith hirdymor profiadau symudedd.<br>Dylid defnyddio data y gellir ei gasglu'n gyflym i gyfleu manteision Taith.<br>A all y strategaeth fod yn fwy trawsbynciol o safbwynt Addysg Bellach, Addysg Uwch ac Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol a chynnig ffyrdd mwy gweithredol o weithio?<br><br>A oes unrhyw orgyffwrdd â gwaith Bwrdd Cyfarwyddwyr ILEP a thrafodaethau'r aelodau?<br>Mae angen mwy o dryloywder a chyfathrebu rhwng Bwrdd Cyfarwyddwyr ILEP a'r aelodau.<br>Dylid rhoi mwy o amser i'r aelodau ymgynghori er mwyn gwella effeithiolrwydd.<br>Byddai cyfarfodydd cynllunio o ddefnydd, er mwyn i'r aelodau gael gwybod pa benderfyniadau allweddol y mae angen eu gwneud ac erbyn pryd.<br>Mae wedi dechrau dod yn amlwg bod y Bwrdd Cynghori'n cadw golwg lefel uchel ar ddatblygiad Taith a newidiadau i bolisïau.<br>Mae angen eglurhad o hyd ar gylch gorchwyl y Bwrdd Cynghori, sut mae'n berthnasol, a beth sy'n digwydd i'r cyngor sy'n cael ei roi gan y Bwrdd Cynghori.<br>Awgrymwyd taflen glawr sy'n amlinellu rôl aelod o'r Bwrdd Cynghori er mwyn sicrhau ei fod yn gwybod beth a ddisgwylir ganddo cyn mynd i gyfarfodydd.<br><br>Holwyd a oedd y sector Addysg Uwch yn cael ei orgynrychioli ar y Bwrdd Cynghori ac a oes angen Corff Trefnu Sector arno.<br>Nid yw'r sector Ysgolion yn cael ei gynrychioli'n ddigonol ar y Bwrdd Cynghori, a byddai mwy o aelodau sy'n cynrychioli'r sector hwn yn sicrhau cydraddoldeb o ryw fath.<br>Mae cyfle'n cael ei roi i'r Cyrff Trefnu Sectorau a'r sefydliadau sy'n ffurfio'r Cyrff Trefnu Sectorau fod yn rhan o'r Bwrdd Cynghori.<br>Byddai'r Bwrdd Cynghori'n elwa o fod ag aelodau allanol, o bosibl o'r tu allan i'r DU. | |

| | | |
|---|---|---|
| 6.1d<br><br><br>6.1d(i)<br><br><br><br><br><br>6.1e<br><br><br>6.1e(i) | Ychwanegwyd mai pwnc trafodaeth grŵp ddiweddar oedd cymhwystra staff cymorth addysg Awdurdodau Lleol a staff consortia nad ydynt wedi'u cyflogi'n uniongyrchol gan ysgolion, a gofynnwyd am eglurhad ar hyn.<br>Eglurodd Swyddogion Gweithredu Taith fod staff o'r fath yn gymwys, ond bod angen iddynt fod wedi trafod hyn gyda'r ysgol. Eglurwyd hefyd mai diben y broses ddilysu oedd atal y sefydliadau hynny nad oes ganddynt unrhyw gysylltiadau ag ysgolion rhag cyflwyno cais a sicrhau bod cysylltiadau a phartneriaethau gwirioneddol i'w cael ag ysgolion.<br><br>Diolchwyd i'r aelodau am eu hadborth, a rhoddwyd gwybod iddynt y bydd y wybodaeth hon yn cael ei defnyddio'n rhan o drafodaeth/sgwrs barhaus. Yn ogystal â chyfrannu at wybodaeth ehangach sy'n cael ei chasglu, bydd yn helpu i greu darlun mwy o'r sefyllfa ac yn helpu Taith i wella.<br>Daethpwyd â'r cyfarfod i ben drwy ofyn i'r aelodau gadw mewn cysylltiad (y tu hwnt i'r cyfarfodydd sydd wedi'u trefnu) i rannu unrhyw bryderon neu adborth sydd ganddynt. | |
| 7 | **Unrhyw fater arall** | |
| 7.1 | Ni chodwyd unrhyw faterion eraill. | |
| 8 | **Dyddiad y cyfarfod nesaf** | |
| 8.1 | 21 Mehefin 2023 | |